


GWEITHDREFN DYRCHAFIADAU ACADEMAIDD 2020/21

1. Rhagair

- 1.1 Mae Dyrchafiad Academaidd yn caniatáu cam ymlaen i swydd Uwch Ddarlithydd, Darllenydd a Chadair Bersonol (Athro) ar gyfer staff sydd ar y llwybrau gyrfa Addysgu ac Ymchwil ac Addysgu ac Ysgolheictod, ac i Uwch-gymrawd Ymchwil, Prif Gymrawd Ymchwil a Chymrawd Ymchwil Athrawol ar gyfer staff sydd ar y llwybr gyrfa Ymchwil.
- 1.2 Mae dyrchafiad i swydd Uwch-ddarlithydd / Uwch-gymrawd Ymchwil ar gael i'r rheini sy'n gallu dangos **enw da cenedlaethol** mewn perthynas â'u cyfraniad at y meincnodau. Mae dyrchafiad i swydd Darllenydd / Prif Gymrawd Ymchwil ar gael i'r rheini sy'n gallu dangos **enw da rhyngwladol sy'n dod i'r amlwg**, ac i swydd Cadair Bersonol / Cymrawd Ymchwil Athrawol ar gyfer y rheini sy'n gallu dangos **enw da rhyngwladol sefydledig**. Dylai ymgeiswyr ddangos tystiolaeth sylweddol o lefel briodol o berfformiad sy'n debygol o gael ei chynnal.

Ffigur 1.0 Llwybrau Dyrchafiadau Academaidd



- 1.3 Dylai ymgeiswyr roi tystiolaeth o'r enw da cenedlaethol/rhyngwladol sy'n briodol i'r maes rhagoriaeth a honnir. Er enghraifft, er y ceir cydnabyddiaeth mai Addysgu sy'n cael y prif sylw yn y sefydliad, gall Uwch Gymrodoriaeth

(SFHEA) neu Brif Gymrodoriaeth o'r Academi Addysg Uwch neu ddyfarniad Cymrodoriaeth Addysgu Genedlaethol fod yn fodd o ddangos enw da cenedlaethol/rhyngwladol. O ran Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol, gall hyn gynnwys gweithgareddau y mae'r ymgeisydd wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag atynt sy'n ehangu enw da'r brifysgol / rhanbarth ehangach neu at bolisi cyhoeddus yn lleol / cenedlaethol sy'n cael ei fabwysiadu'n rhyngwladol wedi hynny.

- 1.4 Mae ymgeiswyr yn gymwys i gael dyrchafiad o fewn eu llwybr gyrfa presennol yn unig.¹ Fel arfer, dyfernir dyrchafiad i gam nesaf yr yrfa yn unig (e.e. o Uwch-ddarlithydd i Ddarllenydd). Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dyfernir dyrchafiad i lefel sy'n uwch na cham nesaf yr yrfa (e.e. o Uwch-ddarlithydd i Athro), lle gall ymgeiswyr ddangos tystiolaeth diamheuol a sylweddol o'r lefel briodol o berfformiad, sy'n debygol o gael ei chynnal.

2. Sail y cais

- 2.1 Rhaid i'r ymgeiswyr seilio eu cais ar **ragoriaeth** mewn un o'r tri maes canlynol yn ôl eu llwybr gyrfa.

Addysgu ac Ymchwil	Addysgu ac Ysgolheictod	Ymchwil
Addysgu	Addysgu	Ymchwil
Ymchwil	Ysgolheictod	
Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol	Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol	

- 2.2 I ymgeiswyr ar y llwybrau gyrfa Addysgu ac Ymchwil ac Addysgu ac Ysgolheictod, pa un bynnag a ddewisir fel y brif sail ar gyfer y cais, lle y bo'n briodol, rhaid i ymgeiswyr hefyd ddangos **eu gallu a'u heffeithiolrwydd** yn y ddau arall. Bydd ymgeiswyr fel arfer yn cyfrannu at hyd a lled y llwybr gyrfa yn ogystal â rhagoriaeth yn eu maes dewisedig. Nid oes angen i'r cyfraniad at y ddau faes arall fod yn gyfartal ac, mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r cyfraniad fod yn berthnasol i un maes yn unig.
- 2.3 Mae'n rhaid i ymgeiswyr ar y llwybr gyrfa Ymchwil ddangos **rhagoriaeth** ym maes Ymchwil a **gallu ac effeithiolrwydd** ym maes Addysgu ac mewn Arloesedd, Cenhadaeth Ddinesig a Rhyngwladol. Caiff cyfran y mewnbynnau/allbynnau ym mhob maes eu hasesu gan gyfeirio at rôl a disgwyliadau'r ymgeisydd ar gyfer y llwybr gyrfa. Nid oes angen i'r cyfraniad at y ddau faes arall fod yn gyfartal ac, mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r cyfraniad fod yn berthnasol i un maes yn unig.

¹ Mae'r teitlau a ddyfernir drwy Ddyrchafiad Academiaidd yn gydnabyddiaeth o statws academiaidd y deiliad. Rhaid i staff gwasanaethau proffesiynol sy'n gwneud cais i newid llwybr gyrfa ddangos eu statws academiaidd drwy broses y Dyrchafiadau Academiaidd er mwyn i'r teitlau hyn gael eu dyfarnu.

- 2.4 Mewn amgylchiadau eithriadol, gallai'r Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd ystyried yr holl weithgarwch ar gyfer achos sydd ychydig islaw'r trothwy rhagoriaeth, lle mae gan ymgeisydd broffil cryf iawn ar draws y tri maes a gynhaliwyd dros gyfnod sylweddol o amser. Rhaid i ymgeiswyr honni rhagoriaeth mewn un maes o hyd, ond dylent fanylu ar hyd a lled eu proffil yn eu cais. Gofynnir i Baneli Dyrchafiadau Ysgolion wneud sylwadau ar ehangder y dystiolaeth mewn perthynas ag achosion o'r fath.

3. Colegoldeb a Dinasyddiaeth y Brifysgol

- 3.1 Yn ogystal â mynd i'r afael â'r meincnodau, rhaid i bob ymgeisydd ddarparu tystiolaeth o gyfraniad effeithiol at golegoldeb a dinasyddiaeth y Brifysgol. Gall colegoldeb a dinasyddiaeth y Brifysgol fod ar sawl ffurf ac mae'n cynnwys:

- Ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau yn yr Ysgol, y Coleg a/neu'r Brifysgol.
- Gwasanaethu ar bwyllgorau, rhwydweithiau polisi, gweithgorau, paneli, ac ati, yr Ysgol, y Coleg a/neu'r Brifysgol.
- Cyfrannu at gymuned gynhwysol drwy hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Cefnogi datblygiad gyrfa cydweithwyr, gan gynnwys mentora, cefnogi, adolygiad cymheiriaid a phartneriaethau perthnasol, yn enwedig mewn cysylltiad â staff ar ddechrau eu gyrfa.
- Gweithgareddau ymgysylltu gwirfoddol neu ddinesig a gefnogir gan y Brifysgol (e.e. mentrau cymunedol Gwirfoddoli Myfyrwyr Caerdydd).
- Camau i liniaru effaith Coronavirus (COVID-19) (e.e. aelodaeth o grwpiau cynllunio wrth gefn, cyfraniad at Wasanaeth Sgrinio Coronafirws y Brifysgol).

- 3.2 Ni fydd cyfraniad eithriadol yn y maes hwn yn cael ei ystyried yn brif sail ar gyfer dyrchafiad, ond gellid rhoi pwys iddo o ran ychwanegu at gais sy'n ffiniol fel arall.

4. Defnyddio'r meincnodau ar gyfer dyrchafiad

- 4.1 Amlinellir y meincnodau ar gyfer dyrchafiad yn adrannau 10 i 13. Nid oes angen i dystiolaeth yn erbyn y meincnodau fod yn gyfartal. Cefnogir y meincnodau gan ddangosyddion asesu. Nid yw'r dangosyddion yn gynhwysfawr nac yn rhagnodol. Maent yn enghreifftiau o feysydd a ystyrir wrth asesu ceisiadau. Bydd rhai dangosyddion yn fwy perthnasol i rai disgyblaethau nag eraill. Bydd y Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd yn ystyried y ffactorau hyn wrth asesu ceisiadau. Bydd lefel y cyflawniad mewn perthynas â'r dangosyddion yn amrywio yn ôl p'un a yw'r ymgeisydd yn dangos rhagoriaeth neu allu ac effeithiolrwydd yn y maes penodol. Ni ddisgwylir i ymgeiswyr fodloni'r holl ddangosyddion ym mhob maes.

4.2 Mae [disgwyliadau perfformiad Academaidd a Choleg Caerdydd](#) yn rhoi mwy o fanylion am ddisgwyliadau rôl ac yn cefnogi cynllunio ar gyfer datblygu gyrfa hefyd.

5. Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA)

5.1 Mae Prifysgol Caerdydd yn llofnodwr Datganiad San Francisco ar Asesu Ymchwil (DORA), sy'n golygu y byddwn, wrth wneud penderfyniadau hysbysebu a hyrwyddo, yn gwerthuso ymgeiswyr ar sail safon eu hymchwil, nid metrigau cyhoeddi na'r cyfnodolyn y mae'r ymchwil yn cael ei chyhoeddi ynddo. Cewch ragor o wybodaeth ar dudalennau gwe'r Brifysgol ar [asesu ymchwil cyfrifol](#).

6. Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

6.1 Mae Prifysgol Caerdydd wedi ymrwymo i gefnogi, datblygu a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ei holl arferion a gweithgareddau, a'i nod yw sefydlu diwylliant cynhwysol heb gamwahanïaethu, wedi'i seilio ar werthoedd urddas, cwrteisi a pharch. Mae Prifysgol Caerdydd yn ymrwymo i gael gwared ar wahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb ar sail oedran, anabledd, hunaniaeth rhywedd², priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd a chred (gan gynnwys diffyg cred), rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Rydym hefyd am feithrin perthynas dda rhwng gwahanol grwpiau. Mae'r Brifysgol yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn cydnabod bod y sefydliad yn cael ei wella'n sylweddol gan yr ystod amrywiol o gefndiroedd, profiadau, safbwyntiau, credoau a diwylliannau a gynrychiolir o fewn ei boblogaethau staff a myfyrwyr. Nod y sefydliad yw cofleidio amrywiaeth yn ein holl weithgareddau ac mae'n cydnabod gyda balchder bod amrywiaeth a gwahaniaeth yn hanfodol er lles a datblygiad dyfodol y Brifysgol. Mae croeso i bobl anfon cais yn Gymraeg neu yn Saesneg.

6.2 Mae'r Weithdrefn Dyrchafiadau Academaidd yr un mor berthnasol i bob aelod o staff cymwys³. Bydd trefniadau cytundebol yr ymgeisydd (e.e. amser llawn, rhan-amser, rhannu swyddi, cyfrifoldebau clinigol⁴) ac unrhyw amgylchiadau personol, teuluol neu anacademaidd y gallent fod wedi effeithio ar yrfa broffesiynol yr ymgeisydd yn cael eu hystyried wrth asesu maint ei

²Mae hunaniaeth rhywedd yn cyfeirio at y modd mae unigolyn yn uniaethu â'i rywedd ei hun, e.e. fel naill ai dyn neu fenyw, neu mewn ffordd arall (e.e. anneauaid), a all fod yn wahanol i'w ryw fiolegol. Mae hunaniaeth rhywedd yn cynnwys ailbennu rhywedd.

³ Mae hyn yn cynnwys staff ar gontractau penagored a chyfnod penodol.

⁴ O ran staff clinigol, mae lefel y cyfraniad academaidd yr un fath ag ar gyfer staff nad ydynt yn glinigol, ond gostyngir maint y gwaith a ddisgwyllir er mwyn ystyried cyfrifoldebau clinigol. Dylid cynnwys manylion yr ymrwymïadau sesiynol dynodedig i'r Brifysgol a'r Ymddiriedolaeth berthnasol yn y cais.

weithgarwch. Er na chaniateir gostyngiad mewn ansawdd, rhoddir ystyriaeth i faint y gwaith.

- 6.3 Anogir ymgeiswyr i ddatgelu unrhyw ffactorau sydd wedi effeithio ar eu proffil gyrfa a maint y gwaith a gynhyrchwyd ganddynt yn eu cais. Gallai'r ffactorau hyn gynnwys y canlynol, ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt:
- trefniadau gweithio hyblyg (e.e. seibiant gyrfa, gweithio'n rhan-amser, gweithio yn ystod y semester / tymor, rhannu swydd)
 - beichiogrwydd, mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a rennir, mabwysiadu a geni plant ar ran rhywun arall, gwarcheidwaeth arbennig
 - cyfrifoldebau gofalu
 - anabledd, afiechyd (gan gynnwys iechyd meddwl) neu anaf
 - amgylchiadau sy'n ymwneud â hunaniaeth o ran rhywedd
 - amgylchiadau personol neu deuluol neu amgylchiadau anacademaidd eraill sydd wedi cyfyngu ar yrfa broffesiynol ymgeisydd neu ei hoedi
 - effeithiau sy'n gysylltiedig â phandemig y Coronafeirws (COVID-19) (e.e. profedigaeth, absenoldeb salwch, iechyd meddwl a lles, cyfrifoldebau gofalu, addysg a gofal plant, hunanynysu, cysgodi'r rhai sy'n hynod fregus yn glinigol, ffyrlo, trefniadau gweithio hyblyg, heriau ariannol, cyfyngiadau teithio).
- 6.4 Gwneir yr asesiad o geisiadau yng nghyd-destun pandemig COVID-19 ac effaith ein hymateb i'r argyfwng ar ofynion ein cymuned academaidd. Dylai ymgeiswyr egluro effaith COVID-19 yn eu hachos penodol nhw yn adran amgylchiadau unigol y ffurflen gais ac ym mhob rhan o'r datganiadau personol, lle bo hynny'n berthnasol.
- 6.5 Dylai ymgeiswyr y byddai'n well ganddynt gadw'r manylion penodol am ffactorau o'r fath yn gyfrinachol ganolbwyntio ar eu heffaith. Ni ystyrir datgeliadau ôl-weithredol, oni bai y daw amgylchiadau i'r amlwg nad oedd yn hysbys i'r ymgeisydd ar adeg cyflwyno'r cais. Dim ond er mwyn llywio'r broses Dyrchafiadau Academaidd y caiff y wybodaeth ei defnyddio. Ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall gan gynnwys fel datgeliad i lywio neu ddiweddarau cofnodion staff.
- 6.6 Mewn Addysg Uwch, mae staff benywaidd a BME (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig) yn cael eu tangynrychioli mewn uwch-swyddi academaidd. Felly, croesewir yn arbennig geisiadau gan ymgeiswyr sy'n nodi eu bod yn fenyw a / neu BAME. Bydd cyfansoddiad y Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd a Phaneli Dyrchafiadau Ysgolion, lle bynnag y bo'n ymarferol, yn gynrychioliadol o'r gymuned academaidd ehangach o ran llwybrau gyrfaoedd a'r holl nodweddion gwarchoddedig, gan gynnwys rhyw ac ethnigrwydd. Bydd data cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn cael ei adrodd yn ddiennw i'r Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd yn flynyddol o leiaf, ac i gyrff eraill fel y bo'n briodol.

7. Sut i gyflwyno cais

7.1 Rhaid cyflwyno ceisiadau drwy ebost at academicpromotions@caerdydd.ac.uk erbyn 12:00 (h.y. hanner dydd) Dydd Gwener, 26 Mawrth 2021, yn unol â'r canllawiau ar sut i lenwi'r ffurflen gais.⁵ Ni all cyflawniadau a wnaed ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais gael eu hystyried yn ddiweddarach. Mae'r ffurflen gais a'r canllawiau cysylltiedig ar gael ar fewnrwyd y staff.

<https://intranet.cardiff.ac.uk/cy/staff/training-and-development/promotions-and-banding/academic-promotion>

7.2 Dylai'r manylion a gyflwynir yn eich cais fod yn seiliedig ar eich cyfraniad ers cyflwyno ar gyfer eich dyrchafiad llwyddiannus diwethaf (h.y. dyddiad cau'r cais) neu, os nad ydych wedi cael dyrchafiad yn flaenorol, ers i chi gael eich penodi ar gyfer eich rôl bresennol. Ni all tystiolaeth a gyflwynwyd yn rhan o gais llwyddiannus blaenorol gael ei hystyried wedi hynny. Dylai ymgeiswyr sy'n gwneud cais yn dilyn cais aflwyddiannus blaenorol hefyd amlygu'r prif ddatblygiadau ers y cais blaenorol.

7.3 Anogir ymgeiswyr i drafod eu cais gyda'u Pennaeth Ysgol / rheolwr llinell academiaidd cyn ei gyflwyno. Efallai y gofynnir i ymgeiswyr newid eu cais ar ôl y dyddiad cau os bydd hyn yn angenrheidiol er mwyn cydymffurfio â'r weithdrefn yn dechnegol. Anogir cefnogaeth ehangach ar gyfer datblygu gyrfa cyn ei gyflwyno, gan gynnwys trwy gyfleoedd fel Adolygiad Datblygu Perfformiad (ADP).

7.4 Mae Atodiad 1 yn dangos prif gamau'r broses Dyrchafiadau Academiaidd. Cysylltir â phob ymgeisydd ar ôl diwedd cam cyntaf y Pwyllgor Dyrchafiadau Academiaidd i'w cynghori ar hynt eu ceisiadau. Bydd y rhai sy'n aflwyddiannus ar y cam hwn yn cael gwybod. Bydd yr holl ymgeiswyr eraill yn cael gwybod am ganlyniad terfynol eu cais ar ôl diwedd ail gam y Pwyllgor Dyrchafiadau Academiaidd. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu dyrchafu ar 1 Chwefror 2022.

7.5 Aseswyr / canolwyr

7.5.1 Mae asesu allanol yn rhan annatod o'r broses Dyrchafiadau Academiaidd er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal y safonau academiaidd uchaf o gymharu â'n cymheiriaid. Cynhelir asesu allanol gan aseswyr a chanolwyr.

7.5.2 Dylai'r aseswyr a chanolwyr fod yn athrawon, neu o statws athrawol, sy'n gyfarwydd â'r safonau cyffredinol ar gyfer dyrchafu ym mhrifysgolion y

⁵ Caiff ceisiadau eu derbyn ar ôl y dyddiad cau mewn amgylchiadau eithriadol yn unig a gyda chytundeb ymlaen llaw gan Is-Gadeirydd Pwyllgor y Dyrchafiadau Academiaidd.

Deyrnas Unedig. Mewn amgylchiadau eithriadol, gellir dewis aseswyr a chanolwyr o fath arall o sefydliad. Ni chaiff aseswyr a chanolwyr fod yn gyflogedig gan Brifysgol Caerdydd ar hyn o bryd.

7.5.3 Aseswyr

- .1 Caiff aseswyr eu henwebu gan y Brifysgol. Ni ddylai aseswyr fod yn uniongyrchol gysylltiedig â gwaith yr ymgeisydd (e.e. cyd-awdur, goruchwyliwr blaenorol).

7.5.4 Canolwyr

- .1 Enwebir canolwyr gan yr ymgeisydd. Gall canolwyr gynnwys, ymhlith rhai eraill, cyd-ddeiliaid grant, cyd-awduron, goruchwylwyr a chydweithredwyr academiaidd.
- .2 Rhaid i bob ymgeisydd enwebu un canolwr y gellir cysylltu ag ef pe byddai'r cais yn symud y tu hwnt i gam cyntaf y Pwyllgor Dyrchafiadau Academiaidd.

7.6 Adborth

7.6.1 Bydd ymgeiswyr yn cael gwybod os yw eu Panel Dyrchafiadau Ysgol yn credu bod eu cais yn rhy gynnar. Rhoddir adborth gan Bennaeth yr Ysgol ynghyd ag un aelod arall o'r Panel Dyrchafiadau Ysgol. Gall ymgeiswyr fynnu bod eu hachos yn cael ei ystyried gan y Pwyllgor Dyrchafiadau Academiaidd ni waeth a yw'r Panel Dyrchafiadau Ysgol yn cefnogi eu hachos.

7.6.2 Cynigir y cyfle i ymgeiswyr aflwyddiannus gael cyfarfod gyda'u Pennaeth Coleg a Phennaeth Ysgol, i gael adborth ar y sail dros y penderfyniad ac i gael arweiniad ar ddatblygu yn y dyfodol. Cynghorir pob ymgeisydd aflwyddiannus yn gryf i dderbyn y cynnig o adborth.

7.7 Apeliadau

7.7.1 Gellir cyflwyno apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â rhoi dyrchafiad ar sail diffyg wrth gymhwyso'r weithdrefn bresennol yn unig os yw'r diffyg hwn wedi cael effaith wirioneddol ar y canlyniad. Caiff ymgeiswyr apelio os oes ganddynt bryderon am y broses sy'n parhau ar ôl y cyfarfod adborth.

7.7.2 Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno apelio roi gwybod i'r Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn ysgrifenedig, gan fanylu ar sail yr apêl, o fewn pymtheg niwrnod gwaith o'r cyfarfod adborth.

7.7.3 Bydd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol yn cadarnhau p'un a yw sail yr apêl yn gallu effeithio ar sut rhoddir y weithdrefn ar waith. Os caiff hyn ei benderfynu, bydd panel apêl yn cael ei gynnal.

7.7.4 Bydd aelodau'r panel apêl yn cynnwys dau Athro academaidd sydd heb fod yn gysylltiedig ag asesu'r cais yn flaenorol.

7.7.5 Gall y panel apêl ddod i un o'r casgliadau canlynol:

- i. Cadarnhau'r apêl a chyfeirio'r achos yn ôl i'r Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd i'w hailasesu gan ddilyn y weithdrefn gywir.
- ii. Peidio â chadarnhau'r apêl. Canlyniad gwreiddiol y Pwyllgor Dyrchafiadau Academaidd fydd ar waith.

7.7.6 Ni chaiff y panel apêl ddyfarnu dyrchafiad. Mae penderfyniad y bwrdd apêl yn derfynol.

7.8 Ail-ymgeisio yn dilyn cais aflwyddiannus o'r blaen

7.8.1 Dim ond mewn amgylchiadau lle gall yr ymgeisydd ddangos gwelliant priodol yn ei achos, sy'n ddigonol o ran bodloni'r meini prawf ar gyfer dyrchafiad, y gellir ailgyflwyno cais yn dilyn cais blaenorol aflwyddiannus. Dylai datblygiadau allweddol ers y cyflwyniad blaenorol gael eu hamlinellu yn y cais.

8. Hysbysiad Diogelu Data

8.1 Caiff eich data personol ei brosesu yn unol â'r hysbysiad diogelu data staff. Gallai'r Brifysgol rannu eich cais gyda thrydydd partïon er mwyn caffael asesiadau allanol gan gyflogwyr neu unigolion eraill.

9. Rhagor o wybodaeth

9.1. Mae'r Weithdrefn Dyrchafiadau Academaidd ar gael i'w lawrlwytho ar Fewnrwyd y Staff.

<https://intranet.cardiff.ac.uk/cy/staff/training-and-development/promotions-and-banding/academic-promotion>

9.2 This document is also available in English.

<https://intranet.cardiff.ac.uk/staff/training-and-development/promotions-and-banding/academic-promotion>

9.3 Cysylltwch ag Adnoddau Dynol os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch Dyrchafiadau Academaidd neu os oes arnoch angen y ddogfen hon mewn fformat arall.

Ffôn: (029) 2087 6555 (Estyniad: 76555)

Ebost: academicpromotions@caerdydd.ac.uk

10. Asesu Ymchwil (ar gyfer staff ar y llwybr gyrfa Addysgu ac Ymchwil ac Ymchwil yn unig)⁶

10.1 Meincnodau

- i. Allbwn cyson o gyhoeddiadau rhagorol a phwysig mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid a / neu allbynnau ymchwil eraill (e.e. llyfrau, cyfansoddiad cerddorol).
- ii. Tystiolaeth o arian allanol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth.
- iii. Goruchwyliaeth effeithiol ar ymchwilwyr/fyfyrrwyr ymchwil.
- iv. Tystiolaeth o gyfraniad, ar lefel y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol, i'r maes pwnc, i gyrff proffesiynol a/neu barch allanol.

10.2 Dangosyddion Asesu

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddangosyddion y gellir eu cynnwys mewn cais i ddangos gallu ac effeithiolrwydd, neu ragoriaeth, yn erbyn y meincnodau cyffredinol uchod. Sylwer na ddisgwylir i ymgeiswyr fodloni pob dangosydd ym mhob maes o reidrwydd.

Meincnodau	Dangosyddion Asesu
i. Allbwn cyson o gyhoeddiadau rhagorol a phwysig mewn cyfnodolion a adolygwyd gan gymheiriaid a / neu allbynnau ymchwil eraill (e.e. llyfrau, cyfansoddiad cerddorol).	<ul style="list-style-type: none">• Unig awdur neu awdur ar y cyd ar gyhoeddiadau ymchwil, cyhoeddiadau mewn cyfnodolion gyda chanolwyr, ac erthyglau, papurau a thrafodion cynadleddau eraill, yn enwedig o ran rôl canolwyr wrth ei asesu.• Cyhoeddi llyfr(au) gan gyhoeddwr ym maes yr ymgeisydd.• Ar y trywydd iawn ar gyfer eu cynnwys yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) neu ymarfer cyfatebol.• Cyfrannu at ddatblygu achos effaith / ysgrifennu a/neu effaith sydd wedi dylanwadu, newid neu sydd o fudd i'r economi, cymdeithas, diwylliant, polisi neu wasanaethau cyhoeddus, iechyd, yr amgylchedd neu ansawdd bywyd, tu hwnt i'r byd academiaidd.• Portffolios dylunio.• Ysgrifennu creadigol a gwaith arall (ar gyfer pob eitem, dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol,

⁶ Dylai staff ar y llwybrau gyrfa Dysgu ac Ysgolheictod sy'n ymgymryd ag Ymchwil roi tystiolaeth o hynny yn erbyn meincnodau'r Ysgolheictod.

	<p>fel y bo'n briodol: cyhoeddwr, adolygiadau, dosbarthu/ cyfieithu).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfansoddiad cerddorol (ar gyfer pob eitem, dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol, fel y bo'n briodol: corff comisiynu, lleoliad y perfformiad cyntaf ac enw'r perfformiwr/enwau'r perfformwyr, perfformiadau dilynol). • Erthyglau eraill sy'n seiliedig ar ymchwil a gydnabyddir yn genedlaethol/rhyngwladol mewn cyhoeddiadau gyda chanolwyr.
ii. Tystiolaeth o arian allanol sy'n briodol i'r ddisgyblaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Arian ar gyfer ymchwil (dylai'r wybodaeth gynnwys syniad o'r cymorth a dderbyniwyd gan Gyngor Ymchwil/ cyrff ariannu eraill, gan gynnwys eich statws fel ymgeisydd, graddio ceisiadau grant a cheisiadau aflwyddiannus, os yw hynny'n berthnasol i'r achos). • Unrhyw werthusiadau ffurfiol o adroddiadau grant terfynol. • Arian diwydiannol/ masnachol i ategu ymchwil gymwysedig. • Cymryd rhan mewn gwaith gyda chyrrff ariannu ymchwil.
iii. Goruchwyliaeth effeithiol ar ymchwilwyr/fyfyrrwyr ymchwil.	<ul style="list-style-type: none"> • Cofnod o oruchwylio ymchwil yn barhaus. • Tystiolaeth o oruchwylio PhD a sicrhau ei gwblhau yn llwyddiannus, a mathau eraill o oruchwylio ymchwil yn llwyddiannus ar lefel ôl-raddedig, (e.e. traethodau hir MA). • Cofnod o geisiadau llwyddiannus ar gyfer ysgoloriaethau ymchwil PhD a ariennir yn allanol.
iv. Tystiolaeth o gyfraniad, ar lefel y Deyrnas Unedig neu'n rhyngwladol, i'r maes pwnc, i gyrff proffesiynol a/neu barch allanol.	<ul style="list-style-type: none"> • Statws o fewn y maes pwnc/ proffesiwn (e.e. cydnabyddiaeth fel aelod arbenigol o faes/proffesiwn penodedig ar lefel genedlaethol a rhyngwladol). • Gweithgarwch proffesiynol (e.e. aelodaeth o bwyllgorau proffesiynol cenedlaethol/ rhyngwladol; gwahoddiad i annerch cyfarfodydd a chynadleddau cenedlaethol/ rhyngwladol proffesiynol, gan gynnwys prif sesiynau/ sesiynau llawn). • Aelod o gymdeithasau dysgedig academaidd o fri, a Byrddau a Phwyllgorau Cyngori Gwyddonol y llywodraeth, y GIG a/neu ddiwydiannol. • Profiad o aelodaeth o fwrdd/byrddau golygyddol. • Canoli erthyglau ar gyfer cyfnodolion academaidd a adolygir gan gymheiriaid. • Canoli ceisiadau am grantiau gan gynghorau ymchwil a chyrrff ariannu mawr eraill. • Cyflwyno canfyddiadau ymchwil yn rheolaidd mewn cynadleddau cenedlaethol / rhyngwladol. • Trefnu cynadleddau / cyfarfodydd academaidd cenedlaethol/ rhyngwladol. • Derbyn medalau, gwobrau neu glod academaidd arall gan gymdeithasau dysgedig. • Cyfraniadau sylweddol i ymgysylltu cyhoeddus a lledaenu gwybodaeth wyddonol (e.e. drwy

	<p>wahoddiadau gan ddarledwyr a chyfryngau eraill).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at ddealltwriaeth y cyhoedd o'r pwnc. • Allbynnau ysgolheigaidd sylweddol eraill.
--	---

11. Asesu Ysgolheictod (ar gyfer staff ar y llwybr gyrfa Addysgu ac Ysgolheictod yn unig)⁷

11.1 Meincnodau

- i. Tystiolaeth o gyfraniadau arwyddocaol at addysgeg y maes pwnc/ ymarfer proffesiynol.
- ii. Ysgolheictod/ ymchwil sy'n gysylltiedig â Dysgu ac Addysgu.
- iii. Tystiolaeth o arweinyddiaeth wrth ddatblygu addysgu a dysgu y tu allan i'r Brifysgol.
- iv. Tystiolaeth o arian allanol / parch sy'n briodol i'r ddisgyblaeth.

11.2 Dangosyddion Asesu

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddangosyddion y gellir eu cynnwys mewn cais i ddangos gallu ac effeithiolrwydd, neu ragoriaeth, yn erbyn y meincnodau cyffredinol uchod. Sylwer na ddisgwylir i ymgeiswyr fodloni pob dangosydd ym mhob maes o reidrwydd.

Meincnodau	Dangosyddion Asesu
i. Tystiolaeth o gyfraniadau arwyddocaol at addysgeg y maes pwnc/ ymarfer proffesiynol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cymryd rhan mewn dysgu ac addysgu ar lefel genedlaethol/ rhyngwladol, er enghraifft trwy gynnal gweithdai neu gyrsiau arbenigol mewn prifysgolion eraill yn y Deyrnas Unedig neu tu hwnt. • Cyflwyniadau am addysgeg mewn cyfarfodydd/cynadleddau cenedlaethol a/neu ryngwladol. • Cyfraniadau, e.e. cyhoeddiadau neu ddatblygu llwyfannau dysgu newydd sydd wedi ffurfio'r ffordd y caiff y pwnc ei addysgu'n genedlaethol, neu sydd wedi cael eu mabwysiadu'n rhyngwladol (e.e. gwrslyfr sydd wedi'i gyhoeddi'n genedlaethol / rhyngwladol). • Cyfraniad at sefydliad proffesiynol neu gymdeithas ddysgedig neu faes pwnc. • Cydweithredu - enghreifftiau o addysgu ar draws ffiniau pwnc a disgyblaeth sy'n dangos cyfraniad at addysg ryngddisgyblaethol/ proffesiynol.

⁷ Dylai staff ar y llwybrau gyrfa Dysgu ac Ymchwil neu Ymchwil sy'n ymgymryd ag Ysgolheictod roi tystiolaeth o hynny yn erbyn meincnodau'r Ymchwil.

	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o arholi allanol. • Adolygiad allanol o'r cwricwlwm neu asesu sefydliadau addysg uwch eraill. • Cyfraniadau at drafodaeth genedlaethol neu ryngwladol ynghylch addysgeg a'r cwricwlwm yn y maes pwnc. • Cyfraniad at rwydweithiau cenedlaethol/ rhyngwladol i gefnogi gwelliannau disgyblaethol a/ neu gyffredinol i ansawdd y dysgu a'r addysgu.
ii. Ysgolheictod/ ymchwil sy'n gysylltiedig â Dysgu ac Addysgu.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyhoeddiadau arwyddocaol sy'n berthnasol i'r ddisgyblaeth neu'r maes pwnc: e.e. unig awdur neu awdur ar y cyd llyfrau, gwerslyfr yn y ddisgyblaeth, cyhoeddiadau mewn cyfnodolion neu gyfres gyda chanolwyr; ac erthyglau, papurau a thrafodion cynadleddau eraill sydd wedi dylanwadu ar ymarfer addysgu, neu wella profiad myfyrwyr yn y maes pwnc. • Ymchwil arwyddocaol sy'n gysylltiedig â dysgu ac addysgu/ addysgeg. • Cyfraniad at ddatblygiad academiaidd y ddisgyblaeth ac addysgu a arweinir gan ymchwil (e.e. cyhoeddiadau ymchwil mewn cyfnodolion gyda chanolwyr, gweithgarwch cysylltiedig ag addysgu o fewn cyrff proffesiynol neu gymdeithasau). • Datblygu a/neu gynllunio adnoddau a thechnolegau dysgu ac addysgu. • Cymrodoriaeth/ Uwch Gymrodoriaeth neu'r hyn sy'n gyfatebol i gyrff proffesiynol neu gymdeithasau. • Gweithredu fel golygydd cyfnodolyn neu aelod o fwrdd golygyddol
iii. Tystiolaeth o arweinyddiaeth wrth ddatblygu addysgu a dysgu y tu allan i'r Brifysgol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at arweinyddiaeth y ddisgyblaeth neu'r maes ymarfer proffesiynol. • Rôl arweinyddiaeth arwyddocaol y tu allan i'r Brifysgol wrth reoli a chyflawni achrediadau gyda chyrff proffesiynol. • Rhoi arweiniad i gyrff cynghori, cymdeithasau dysgedig neu sefydliadau/ asiantaethau eraill. • Arwain, ffurfio a dylanwadu ar bolisi addysgu a dysgu ar lefel genedlaethol / rhyngwladol. • Arweiniad wrth ddatblygu rhaglen newydd. • Tystiolaeth o effaith ar y diwylliant dysgu ac addysgu ac arferion pobl eraill.
iv. Tystiolaeth o gael arian/ parch sy'n briodol i'r ddisgyblaeth.	<ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth o gael arian ar gyfer datblygiadau dysgu ac addysgu, lle y bo'n briodol. • Cael arian neu gydnabyddiaeth allanol ar gyfer datblygiad addysgeg neu gwricwlwm (e.e. grantiau HEA/ JISC). • Cael arian allanol ar gyfer technolegau dysgu neu offer sy'n gysylltiedig ag addysgu. • Dyfarnu gwobrau neu gydnabyddiaeth arwyddocaol.

12. Asesu Addysgu (ar gyfer staff ar y llwybr gyrfa Addysgu ac Ymchwil, Addysgu ac Ysgolheictod ac Ymchwil)

12.1 Meincnodau

- i. Tystiolaeth o safon uchel o addysgu, fel y barnwyd gan ddulliau gwerthuso megis adborth gan fyfyrwyr ac adolygu gan gymheiriaid.
- ii. Tystiolaeth o arloesedd addysgol sylweddol a datblygu cwrs, cynllunio cwrs a gweinyddu ar lefel ôl-raddedig a/ neu israddedig.
- iii. Tystiolaeth o arwain wrth ddatblygu strategaeth addysgol yr Ysgol/ Coleg/ Prifysgol.
- iv. Tystiolaeth o weithgarwch wedi'i gynnal, sy'n gwella profiad myfyrwyr yn sylweddol.

12.2 Dangosyddion Asesu

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddangosyddion y gellir eu cynnwys mewn cais i ddangos gallu ac effeithiolrwydd, neu ragoriaeth, yn erbyn y meincnodau cyffredinol uchod. Sylwer na ddisgwylir i ymgeiswyr fodloni pob dangosydd ym mhob maes o reidrwydd.

Meincnodau	Dangosyddion Asesu
i. Tystiolaeth o safon uchel o addysgu, fel y barnwyd gan ddulliau gwerthuso megis adborth gan fyfyrwyr ac adolygu gan gymheiriaid.	<ul style="list-style-type: none">• Perfformiad ardderchog fel athro neu athrawes a ddangosir gan adroddiadau gwerthuso gan gymheiriaid a myfyrwyr.• Tystiolaeth o arfer ac effaith sydd wedi arwain at ddysgu myfyrwyr yn effeithiol iawn yn y maes pwnc dros gyfnod parhaus.• Tystiolaeth o arfer ac effaith yr ystyrir eu bod yn rhagorol o ran y disgwyliadau addysgu / addysgeg yn y ddisgyblaeth honno.• Ymagwedd fyfyrïol, resymedig ac arloesol tuag at ddysgu, addysgu, cynllunio cwrs, asesu a gwerthuso myfyrwyr.• Defnyddio dulliau addysgu arloesol fel y bo'n briodol.• Rhoi sylw penodol i ddiwallu anghenion myfyrwyr unigol.• Asesu a/ neu ddatblygu addysgu'n llwyddiannus, gydag adborth gan fyfyrwyr ac adolygu gan gymheiriaid yn ei ategu.• Tystiolaeth o ddefnyddio adborth gan fyfyrwyr a/neu asesiadau gan gymheiriaid i ddatblygu

	<p>addysgu.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Goruchwylio/ cyd- oruchwylio myfyrwyr ôl-raddedig a addysgir yn llwyddiannus. • Darparu a datblygu rhaglenni hyfforddiant arbenigol sy'n briodol i ofynion yr Ysgol/ Coleg. • Datblygu sgiliau addysgu staff eraill yn yr Ysgol neu'r Brifysgol. • Dangos ymrwymiad i arfer adfyfyriol ynoch eich hun, mewn dysgwyr a chydweithwyr. • Ymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol parhaus. • Cymrodoriaeth/ Uwch Gymrodoriaeth neu'r hyn sy'n gyfatebol i gyrff proffesiynol neu gymdeithasau priodol.
<p>ii. Tystiolaeth o arloesedd addysgol sylweddol a datblygu cwrs, cynllunio cwrs a gweinyddu ar lefel ôl-raddedig a/ neu israddedig.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Tystiolaeth o ymagwedd fyfyrwl a rhesymedig tuag at ddysgu, addysgu, cynllunio cwrs, asesu a gwerthuso myfyrwyr. • Datblygu methodoleg neu ddeunyddiau addysgu newydd sy'n dylanwadu ar addysgeg y pwnc. • Cyfraniad at ddatblygu dulliau newydd o ddysgu ac addysgu ac ymarfer asesu yn yr Ysgol/ Brifysgol, y gallent fod wedi cael eu mabwysiadu'n rhyngwladol. • Cyfrannu at brofiad dysgu ysbrydoledig, heriol a chynhwysol a fydd yn paratoi myfyrwyr ar gyfer heriau mawr cymdeithas ac yn cynyddu eu cyfrifoldeb cymdeithasol a'u cyflogadwyedd. • Cyfrannu at gynllunio strategol a chyflwyno rhaglenni addysgu, yn gyson â strategaeth addysgu'r Ysgol/ Coleg. • Ymgysylltu â thechnolegau digidol a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi proses ddysgu myfyrwyr. • Gweithredu fel arloeswr/ hyrwyddwr Dysgu ac Addysgu ar gyfer yr Ysgol/ Brifysgol. • Arwain y broses o ddatblygu a chynllunio cwricwlwm yn yr Ysgol a'r Coleg ac o fewn portffolio Addysg ehangach y Brifysgol; • Datblygu a/neu defnyddio dulliau sy'n cefnogi amgylchedd dysgu cynhwysol. • Trefnu gweithgareddau hyfforddiant arbenigol (e.e. datblygu sgiliau/ cymwyseddau yn y maes ymarfer academaidd). • Perthnasedd clinigol a/neu proffesiynol, gan gysylltu proses ddysgu ac addysgu myfyrwyr ag ymarfer ar sail tystiolaeth. • Cyfraniadau sylweddol at gydweithrediaid addysgu llwyddiannus ar draws ffiniau disgyblaethol.

<p>iii. Tystiolaeth o arwain wrth ddatblygu strategaeth addysgol yr Ysgol/ Coleg/ Prifysgol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cychwyn a/ neu arwain arloesiadau addysgu a dysgu yn yr Ysgol/ Coleg/ Prifysgol. • Arwain mentrau arwyddocaol i gefnogi grwpiau penodol o fyfyrwyr. • Llwyddiant wrth ffurfio strategaeth addysgol yr Ysgol/ Coleg/ Prifysgol. • Sefydlu a datblygu rhwydweithiau sy'n gysylltiedig ag addysgu gyda sefydliadau eraill sy'n fuddiol i bawb (e.e. rhaglenni academaidd ar y cyd, cyhoeddiadau ar y cyd, cydweithrediadau a/ neu bartneriaethau addysgu, ehangu cyfranogiad). • Cyfraniad at weithgareddau'r Ysgol/ Coleg/ Prifysgol sy'n ceisio hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant (e.e. trwy arallgyfeirio cynnwys neu ddarpariaeth cwricwla). • Ymgymryd â rolau cysylltiedig ag addysg yn yr Ysgol/ Coleg/ Prifysgol (e.e. Cyfarwyddwr Addysgu a Dysgu, Cyfarwyddwr Astudiaethau Ôl-raddedig a Addysgir, Cadeirydd y Bwrdd Astudiaethau, Deon/ Deon Cyswllt).
<p>iv. Tystiolaeth o weithgarwch wedi'i gynnal, sy'n gwella profiad myfyrwyr yn sylweddol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cymryd cyfrifoldeb am gyfeiriad cyffredinol uned/ blwyddyn/ rhaglen astudio. • Cyfraniad effeithiol ac arwyddocaol at weithgareddau cysylltiedig ag addysg (e.e. diwrnodau agored, gweithgareddau recriwtio myfyrwyr, gweithgareddau allgymorth). • Datblygu gweithgareddau a chyfleoedd, a'u cefnogi'n effeithiol. • Datblygu a gwella'r ddarpariaeth Gymraeg. • Chwarae rôl flaenllaw o ran cyfleoedd gwaith maes a/neu dysgu wedi'i lywio gan ymchwil. • Gwneud cyfraniad strategol arwyddocaol at recriwtio myfyrwyr a derbyniadau. • Arwain ar brosesau'r Ysgol/ Coleg/ Prifysgol sy'n ymwneud ag asesu ac arholiadau. • Rheoli'r broses o gasglu, crynhoi, dehongli a lledaenu data i lywio ymarfer addysgu sy'n seiliedig ar dystiolaeth. • Cyfraniadau sylweddol at achredu neu adolygu rhaglenni'n llwyddiannus. • Ymagwedd arloesol ac effeithiol at fod yn diwtor personol. • Ymgymryd â rolau cynrychioliadol a/ neu gyswllt yn effeithiol (e.e. cyswllt llyfrgell, swyddog arholiadau, swyddog cydraddoldeb ac amrywiaeth, cyswllt â diwydiant/ cyflogwyr). • Cyfraniad cadarnhaol a chyson at baneli staff / myfyrwyr.

13 Asesu Arloesedd, Cenhadaeth a Rhyngwladol (ar gyfer staff ar y llwybrau gyrfa Addysgu ac Ymchwil, Addysgu ac Ysgolheictod ac Ymchwil)

13.1 Meincnodau

- i. Tystiolaeth o gyfraniad parhaus at drosglwyddo gwybodaeth.
- ii. Tystiolaeth o gyfraniad llwyddiannus at weithgareddau cenhadaeth ddinesig a/neu brosiectau rhyngddisgyblaethol ar raddfa fawr.
- iii. Arweinyddiaeth a rheolaeth/ cydlyniad ar lefel uwch.
- iv. Tystiolaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo/ gwella enw da/ proffil y Brifysgol.

13.2 Dangosyddion Asesu

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ddangosyddion y gellir eu cynnwys mewn cais i ddangos gallu ac effeithiolrwydd, neu ragoriaeth, yn erbyn y meincnodau cyffredinol uchod. Sylwer na ddisgwylir i ymgeiswyr fodloni pob dangosydd ym mhob maes o reidrwydd.

Meincnodau	Dangosyddion Asesu
i. Tystiolaeth o gyfraniad parhaus at drosglwyddo gwybodaeth.	<ul style="list-style-type: none">• Datblygu a/neu reoli portffolio sylweddol o weithgareddau trosglwyddo gwybodaeth, gydag effaith gymdeithasol a/ neu economaidd amlwg a budd amlwg i'r Brifysgol (e.e. ymchwil gymhwysol a chydweithredol, ymgynghoriaeth, datblygu a chyflwyno rhaglenni datblygiad proffesiynol parhaus, ac ati).• Cyfrannu at, neu arwain ar, neu gychwyn gweithgareddau sy'n hyrwyddo/ cynnal cysylltiadau gyda chyrrff y tu hwnt i'r sector addysg uwch sy'n cael effaith gymdeithasol, diwylliannol a/ neu economaidd amlwg ac sydd o fudd i'r Brifysgol.• Cyfrannu at fasnacheiddio'n llwyddiannus batentau, dyfeisiau ac unrhyw eiddo deallusol arall y gellid manteisio arno.• Cymryd rhan mewn gwaith sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol at gynyddu gwybodaeth a/ neu ei chymhwyso i'r maes pwnc/ ymarfer proffesiynol/ llunio polisïau ar lefel genedlaethol/ rhyngwladol.• Trosi canfyddiadau ymchwil yn bolisi a chymwysiadau clinigol.

	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfrannu at ddealltwriaeth y cyhoedd o'r pwnc ar lefel genedlaethol/ rhyngwladol. • Cyfrannu at gynyddu capasiti yng Nghaerdydd ac mewn cymunedau ehangach. • Cyfrannu at ddiwylliant a chyfoethogi diwylliannol. • Cyfrannu at ddatblygu diwylliant arloesedd ffyniannus gydag ethos o entrepreneuriaeth a chydweithredu.
ii. Tystiolaeth o gyfraniad llwyddiannus at weithgareddau cenhadaeth ddinesig a/neu brosiectau rhyngddisgyblaethol ar raddfa fawr.	<ul style="list-style-type: none"> • Datblygu partneriaethau sy'n canolbwyntio ar wella iechyd, cyfoeth a lles pobl Cymru a thu hwnt, yn llwyddiannus. • Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd. • Rheoli prosiectau mawr, gan gynnwys grwpiau rhyngddisgyblaethol sydd â phroffil cenedlaethol/ rhyngwladol. • Ennill grantiau allanol/arian allanol yn llwyddiannus a rheoli prosiectau mawr neu grwpiau rhyngddisgyblaethol, gydag effaith genedlaethol/ rhyngwladol. • Arwain a chydlynu prosiectau mawr yr Ysgol, y Coleg, neu'r Brifysgol.
iii. Arweinyddiaeth a rheolaeth/ cydlyniad ar lefel uwch.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfraniad arwyddocaol a sylweddol at reoli a/ neu lunio polisiau ar lefel Ysgol, Prifysgol, cenedlaethol a/ neu rhyngwladol. • Cyfraniad arwyddocaol a sylweddol at gynllunio, llywodraethu a rheoli academaidd o fewn y Brifysgol. • Cyfraniad parhaus at reoli'r ddisgyblaeth a/ neu'r Ysgol sydd wedi arwain at fuddion sylweddol i enw da academaidd neu ymarfer proffesiynol, clinigol neu alwedigaethol yr uned.
iv. Tystiolaeth o weithgareddau sy'n hyrwyddo/ gwella enw da/ proffil y Brifysgol.	<ul style="list-style-type: none"> • Cychwyn neu gynnal cysylltiadau rhwng y Brifysgol a grwpiau, sefydliadau a busnesau cenedlaethol/ rhyngwladol. • Sefydlu a/ neu annog arloesedd a gweithgarwch ymgysylltu, gan gynnwys sefydlu cysylltiadau strategol gyda phartneriaid diwydiannol neu bartneriaid strategol eraill. • Sefydlu a chynnal cydweithrediadau a phartneriaethau cenedlaethol/ rhyngwladol. • Mynd ati i gydweithio mewn modd effeithiol sy'n fuddiol i'r ddwy ochr gyda phartneriaid y tu hwnt i'r sector addysg uwch. • Cyfraniad sylweddol at asesiadau sicrhau ansawdd academaidd, paneli dilysu, ac ati, mewn sefydliadau allanol. • Cyfraniad sylweddol at wella proffil y Brifysgol ar gyfer hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth (e.e. arwain neu gyfrannu'n sylweddol at geisiadau Athena Swan).

	<ul style="list-style-type: none">• Cyngori cyrff y llywodraeth.• Cychwyn neu gynnal cysylltiadau rhwng y Brifysgol a'r Gymuned.• Cydnabyddiaeth fel arbenigwr cenedlaethol/ rhyngwladol sy'n gallu rhoi barn arbenigol mewn maes penodol.• Cyfraniad sylweddol at ehangu cyfranogiad, ymgysylltu ag ysgolion neu ddealltwriaeth y cyhoedd o'r ddisgyblaeth.
--	---



Y Broses Dyrchafiadau Academaidd

